Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Datblygu polisi defnydd mewnol o’r Gymraeg



comisiynyddygymraeg.cymru
welshlanguagecommissioner.wales

# Beth yw polisi defnydd mewnol o'r Gymraeg?


**Mae un o safonau'r Gymraeg yn nodi:**

**"Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd."**

**Pwrpas y safon yw:**

**Cael pob sefydliad i weithio ar gynyddu cyfleoedd staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.**

**Sicrhau bod sefydliadau yn meddwl tu hwnt i weithrediad y safonau yn unig.**



## Beth yw uchelgais y Comisiynydd am bolisïau defnydd mewnol?

Rydym yn awyddus i weld sefydliadau yn datblygu polisïau sydd yn cynyddu cyfleoedd staff i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd wirioneddol, gan greu amgylchedd lle mae'r iaith yn rhan o weithgareddau dyddiol.

Rydym eisiau sicrhau bod sefydliadau'n mynd tu hwnt i gydymffurfio â'r safonau yn unig, drwy fabwysiadu dull gweithredol a strategol o hybu'r Gymraeg yn fewnol.

Gweld sefydliadau yn ymateb yn rhagweithiol i ddeilliannau rheoleiddio'r Comisiynydd, ac yn benodol:

> "Sefydliadau'n cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithle, gan alluogi staff i weithio yn Gymraeg o ddydd i ddydd."

# Pam fod cael polisi defnydd mewnol o'r Gymraeg yn bwysig?

**Mae polisi defnydd mewnol yn ffordd o osod eich gweledigaeth am sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio o ddydd i ddydd yn eich sefydliad.**

**Mae gan y gweithle rôl hanfodol yn yr ymdrech i gynyddu'r nifer o siaradwyr a'r defnydd o'r Gymraeg. Gall eich cefnogaeth chi roi hyder i unigolion ddefnyddio'u Cymraeg a normaleiddio'r defnydd ohoni ymhlith eich staff.**

**Heb bolisi defnydd mewnol o'r Gymraeg, mae tuedd i ganolbwyntio ar yr 'allanol' yn unig. Er bod hyn yn bwysig, mae angen i sefydliadau ystyried sut maen nhw'n creu diwylliant sy'n cefnogi defnydd dyddiol o'r Gymraeg, gan gynnwys mewn cyfarfodydd, hyfforddiant, a chyfathrebu rhwng cydweithwyr.**



# Beth yw elfennau allweddol polisi defnydd mewnol?

**1. Gweledigaeth glir:** diffinio nod uchelgeisiol ar gyfer y Gymraeg yn eich sefydliad.

**2. Amcanion pendant:** nodi blaenoriaethau gweithredu clir, er mwyn i bawb ddeall sut rydych chi'n bwriadu cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

**3. Camau gweithredu:** disgrifio dulliau i gynyddu defnydd ffurfiol (e.e. dogfennau, cyfarfodydd) ac anffurfiol (e.e. sgwrsio rhwng cydweithwyr).

**4. Cefnogi'r gweithlu:** darparu hyfforddiant, adnoddau, a chyfleoedd i ymarfer a datblygu hyder.

**5. Cyfleoedd strategol:** ymgorffori'r iaith mewn prosesau gwaith, digwyddiadau staff, a phrosiectau i sicrhau fod y Gymraeg yn rhan naturiol o waith bob dydd.



# Beth yw elfennau allweddol polisi defnydd mewnol?


**6. Gwaelodlin a mesur cynnydd:** adnabod lefel defnydd presennol a chymharu'n barhaus i fesur cynnydd.

**7. Trosolwg cynhwysfawr:** casglu pob ymdrech bresennol o ran y Gymraeg mewn un lle i ddangos ymrwymiad a chydlyniad.

**8. Dod â'ch gweithlu gyda chi:** sicrhau cyfathrebu clir gyda chydweithwyr ar bob cam o'r daith – maen nhw'n hanfodol i lwyddiant.

**9. Cynllun gweithredu clir:** gosod targedau, cyfrifoldebau, amserlenni a chyfnodau adolygu pendant.

**10. Pobl yn gyntaf:** cofio mai'r unigolion fydd yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yw'r allwedd i lwyddiant – mae eu cefnogi a'u gwerthfawrogi yn hanfodol.



# Sut i ddefnyddio'r pecyn yma

## CAM 1: dewis eich model polisi

Ystyriwch pa lefel weithredu fyddai'n addas i'ch sefydliad.

## CAM 2: lawrlwytho ac arbed

Lawrlwythwch ac arbed y ddogfen ar eich systemau er mwyn golygu yn unol â'ch anghenion.

## CAM 3: addasu'r ddogfen i greu eich polisi

Defnyddiwch y ddogfen fel sail i greu eich polisi defnydd mewnol. Mae modd addasu'r testun presennol neu ychwanegu cynnwys newydd.

## CAM 4: gosod amcanion

Dewiswch o'r esiamplau sydd yn y ddogfen neu crëwch amcanion penodol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau eich sefydliad.

## CAM 5: cynllun gweithredu

Datblygwch gynllun gweithredu clir sy'n nodi camau, cyfrifoldebau, a therfynau amser.

## CAM 6: gweithredu'r polisi

Rhowch y polisi ar waith yn eich sefydliad a sicrhau bod y gweithlu'n ymwybodol o'r amcanion.

# CAM 1



# CAM 1: Dewis eich Model Polisi

**Mae gan bob sefydliad lefel weithredu gwahanol, yn dibynnu ar ffactorau fel sgiliau ieithyddol presennol staff, lleoliad, ymwneud â'r cyhoedd, capasiti i weithredu newid a chefnogaeth ac arweinyddiaeth fewnol.**

**I adlewyrchu hyn, rydym wedi datblygu amrywiaeth o fodelau polisi i chi ddewis y model sy'n fwyaf addas i'ch sefyllfa chi.**

**Maen nhw wedi'u lleoli ar hyd continwwm ieithyddol – o'r cychwynnol i'r mwy datblygedig – gan gynnig hyblygrwydd i sefydliadau o bob math.**




*** Mater mewnol i'ch sefydliad fydd eich lefel weithredu, ni fydd disgwyl i chi gyhoeddi hynny.**

# Sut i ddewis eich lefel weithredu

## Sylfaenol

Dyma'r model mwyaf elfennol, wedi'i gynllunio ar gyfer sefydliadau sydd:

- yn awyddus i sicrhau bod polisi defnydd mewnol cadarn ar waith
- yn dangos ymrwymiad i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg
- efallai â phrinder adnoddau neu gapasiti cyfyngedig.

Mae'r model hwn yn amlinellu cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol ar gyfer defnydd mewnol o'r Gymraeg. Mae'n addas i sefydliadau sydd:

- wedi dechrau gweithredu'r safonau'n ddiweddar
- yn gweithredu ar raddfa fach
- yn symud tuag at ddatblygiad graddol.

Y model polisi yma fydd eich man cychwyn. Mae'r camau nesaf yn esbonio sut i'w addasu ar gyfer eich sefydliad chi, gan osod nodau ac amcanion perthnasol fydd yn annog datblygiad defnydd o'r Gymraeg.

# Sut i ddewis eich lefel weithredu

**Rhagweithiol**

Mae'r model hwn yn mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol y safonau. Ei nod yw:

- creu amodau ffafriol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- cefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol (e.e. cyfarfodydd, dogfennau) ac yn anffurfiol (e.e. sgwrsio).

Mae'n addas ar gyfer sefydliadau sydd:

- eisoes wedi sefydlu seilwaith cadarn ar gyfer gweithredu'r safonau
- yn awyddus i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd flaengar
- yn barod i fuddsoddi mewn cefnogaeth, hyfforddiant ac arweinyddiaeth ieithyddol.

Y model polisi yma fydd eich man cychwyn. Mae'r camau nesaf yn esbonio sut i'w addasu ar gyfer eich sefydliad chi, gan osod nodau ac amcanion fydd perthnasol fydd yn annog datblygiad defnydd o'r Gymraeg.

# Sut i ddewis eich lefel weithredu

**Arloesol**

Mae'r model hwn yn anelu at greu gwir newid drwy fabwysiadu dulliau gweithredu dyfeisgar ac arloesol sy'n arwain y ffordd yn y sector.

Mae'n addas ar gyfer sefydliadau sydd:

- eisoes yn gweithredu'n gadarn drwy'r Gymraeg
- sy'n awyddus i fynd ymhellach drwy weinyddu'n fewnol drwy'r Gymraeg lle bo hynny'n bosibl
- eisiau bod yn wirioneddol ddwyieithog ar draws y sefydliad
- eisiau dylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd staff o'r Gymraeg drwy arloesi a mentro.

Mae'r model hwn yn cynnig cyfle i sefydliadau arwain drwy esiampl, gan greu diwylliant lle mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd gwaith bob dydd.

# CAM 2



## CAM 2: Lawrlwytho ac arbed eich polisi

Sylfaenol

Rhagweithiol

Arloesol

# CAM 3



# CAM 3: Addasu’r ddogfen i greu eich polisi

## Rhan 1 o’r model polisi: gweledigaeth a datganiad o fwriad

**Mae gosod gweledigaeth ac uchelgais ar gyfer eich polisi yn hanfodol i osod cyfeiriad strategol clir ac i gyfleu eich ymrwymiad i’r Gymraeg yn y gweithle.**

**Mae hyn yn rhoi pwrpas pendant i’r gwaith ac yn helpu staff i ddeall y darlun ehangach wrth symud ymlaen.**

**Gallwch greu rhywbeth eich hunain neu mae awgrymiadau drwy glicio ar y ddolen isod:**

**Dewislen datganiadau gweledigaeth**



# Gosod gweledigaeth: esiamplau go iawn

**Llywodraeth Cymru**

**Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg o fewn y sefydliad yw y bydd yr holl staff sy'n gweithio i Lywodraeth Cymru yn gallu deall Cymraeg erbyn 2050. Bydd hyn yn galluogi'r staff i weithio yn y Gymraeg o ddydd i ddydd, ac fe fydd yna gynnydd sylweddol yn y defnydd a wneir o'r iaith o ganlyniad i hynny.**

**Prifysgol Aberystwyth**

**Mae'r Brifysgol yn anelu at gael 90% o'r staff sy'n rhugl eu Cymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg yn ddyddiol yn y gwaith a 50% o'r staff sy'n dysgu'r iaith neu nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl hefyd yn defnyddio'u Cymraeg yn ddyddiol yn y gwaith.**



# CAM 3: Addasu'r ddogfen i greu eich polisi

## Rhan 2 a 3 o'r model polisi: addasu'r polisi i'ch sefydliad

**Mae'r rhannau yma yn y ddogfen model polisi wedi'u llunio fel enghreifftiau i'ch cynorthwyo wrth ddatblygu eich polisi. Mae croeso i chi gadw at y testun presennol, neu ei addasu a'i ehangu yn unol ag anghenion a chyd-destun eich sefydliad.**



**I sicrhau polisi ystyrlon ac effeithiol dylech ystyried:**

- **Cyfeirio at bolisïau a strategaethau eraill er mwyn gosod y polisi defnydd mewnol o fewn cyd-destun ehangach eich sefydliad**
- **Addasu'r cynnwys i adlewyrchu blaenoriaethau, capasiti ac uchelgais eich sefydliad**
- **Sicrhau fod y polisi wedi gwreiddio yn eich gweithgaredd dyddiol, yn hytrach na fel rhywbeth ar wahân.**

# CAM 4



# CAM 4: Gosod amcanion fesul thema

**Mae'r polisïau wedi strwythuro dan y themâu canlynol:**

### Arweinyddiaeth:

creu a chynnal diwylliant sefydliadol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ar bob lefel. Mae hyn yn golygu bod arweinwyr yn gosod esiampl, yn cynnig cefnogaeth, ac yn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r drafodaeth strategol.

### Magu hyder:

galluogi pob aelod o staff i deimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt – yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys annog defnydd bob dydd, darparu cyfleoedd i ymarfer, a chynnig cefnogaeth briodol.

### Seilwaith weinyddol:

sicrhau bod gweithdrefnau a phrosesau mewnol yn creu amgylchedd ble gall y Gymraeg ffynnu. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o dechnoleg, materion cyflogaeth a gwasanaethau cyfieithu.

# CAM 4: Gosod amcanion fesul thema

**Yn Rhan 4 o'r ddogfen polisi, cewch gyfle i osod eich amcanion ar gyfer pob un o'r themâu craidd. Mae'r amcanion hyn yn gweithredu fel datganiadau clir o'ch ymrwymiad i ddatblygu defnydd mewnol o'r Gymraeg.**

**Gallwch ddewis amcanion o'r dogfennau dewislen sydd ar gael, neu greu rhai newydd sy'n adlewyrchu anghenion penodol eich sefydliad.**

**Pwysig: Er mwyn sicrhau bod y polisi'n uchelgeisiol ac yn sbarduno newid gwirioneddol, rydym yn eich annog i gynnwys amcanion sy'n mynd y tu hwnt i lefel weithredu'r model polisi rydych chi wedi'i ddewis. Er enghraifft, os ydych wedi dewis y model sylfaenol, ystyriwch pa gamau rhagweithiol y gallech eu cynnwys i osod y sylfeini ar gyfer datblygiad pellach.**



## CAM 4: Gosod amcanion fesul thema

| | | |
|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth** Sylfaenol | **Magu Hyder** Sylfaenol | **Seilwaith Weinyddol** Sylfaenol |
| **Arweinyddiaeth** Rhagweithiol | **Magu Hyder** Rhagweithiol | **Seilwaith Weinyddol** Rhagweithiol |
| **Arweinyddiaeth** Arloesol | **Magu Hyder** Arloesol | **Seilwaith Weinyddol** Arloesol |

# CAM 5



# CAM 5: Creu cynllun gweithredu

**Er mwyn rhoi eich polisi defnydd mewnol ar waith yn effeithiol, bydd angen i chi ddatblygu cynllun gweithredu sy'n unigryw i'ch sefydliad. Bydd y cynllun yn helpu sicrhau eich bod chi'n gwireddu eich amcanion, a'r weledigaeth hir-dymor yn eich polisi.**

**Mae'r cynllun gweithredu yn gweithredu fel pont rhwng y weledigaeth a'r camau ymarferol sydd eu hangen er mwyn llwyddo.**

**Dylai gynnwys:**

- cyfrifoldebau clir
- amserlenni realistig
- dulliau monitro i dracio cynnydd a chefnogi gwelliant parhaus.



# CAM 6



# CAM 6: Gweithredu'r polisi

**Cyfathrebu:** mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb yn y sefydliad, ac mae'n bwysig gwneud yn siŵr fod pawb yn deall ac yn teimlo'n gyfforddus gyda'r ffordd y mae'r iaith yn rhan o'u diwrnod gwaith. Mae cyfathrebu clir ac effeithiol yn allweddol i lwyddiant unrhyw bolisi defnydd mewnol.

Sicrhewch fod amcanion y polisi yn cael eu rhannu'n agored gyda'r holl staff, a manteisiwch ar bob cyfle i atgyfnerthu'r negeseuon hynny drwy gyfathrebu mewnol parhaus.

**Cefnogaeth:** dyma un o'r elfennau allweddol wrth sicrhau bod polisi defnydd mewnol yn dod yn rhan fyw o ddiwylliant y sefydliad.

Gwnewch yn siŵr fod eich gweithlu yn teimlo cefnogaeth i weithredu ar y polisi er mwyn dod â'r peth yn fyw.



# CAM 6: Gweithredu'r polisi

**Gweithredu ac atebolrwydd:** peidiwch â gadael hwn fod yn bolisi statig ar bapur yn unig. Yn hytrach, dylai fod yn ddogfen fyw sy'n cael ei defnyddio, ei hadolygu, a'i datblygu'n gyson.

**Mesur defnydd:** er mwyn deall pa mor effeithiol yw eich polisi, bydd angen i chi gasglu gwybodaeth am sut mae staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Gall hyn gynnwys:

- holiaduron i staff
- sesiynau adborth
- arsylwi a chofnodi patrymau defnydd.

Mae'r Comisiynydd wrthi'n datblygu adnoddau i gefnogi'r broses hon, a gall y rhain fod yn gymorth defnyddiol wrth sefydlu dull mesur effeithiol.

**Dathlu llwyddiannau:** mae adnabod a dathlu cynnydd yn hollbwysig. Rhowch sylw i lwyddiannau, canmolwch ymdrechion staff a rhannwch straeon o lwyddiant i ysbrydoli eraill ac atgyfnerthu gwerth y polisi.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni.


# post@cyg-wlc.cymru

# 0345 6033 221

# comisiynyddygymraeg.cymru

@comygymraeg

ComisiynyddyGymraeg

ComisiynyddyGymraeg/
WelshLanguageCommissioner